

# Cymdeithas Gwasanaethau

## Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

### 7. Dod o hyd i arian a'i gael

#### 7.10.1 Cyflwyniad i roi arian trwy'r gyflogres



### Beth yw rhoi arian trwy'r gyflogres?

*'Modd y mae gweithwyr yn medru cyfrannu i elusen drwy gyflogres eu cyflogwyr'.*

Ychwanegiad i'r broses yma yw bod y cyfraniadau yn cael eu gweinyddu gan asiantaethau allanol a elwir yn Asiantaethau rhoi arian o'r gyflogres (PGA). Mae WCVA yn gweithredu cynllun rhoi arian am ddim i gyflogwyr yng Nghymru drwy ei bartneriaeth â Rhoi Elusennol y De Orllewin.

### Beth yw'r manteision?

#### Ar gyfer elusennau

- Ffrwd rhoi dibynadwy sy'n galluogi cynllunio ariannol haws.
- Baich gweinyddol isel.
- Annog rhoddwyr hir dymor.

#### Ar gyfer rhoddwyr

- Rhoddion cyn-treth yn golygu costio llai i roi.
- Hawdd ei sefydlu a rhoi'n rheolaidd.

#### Ar gyfer cyflogwyr

- Golwg mwy cadarnhaol o ran y gweithiwr a all gynyddu cadw gweithwyr, moral, ac adeiladu synnwyr cryfach o weithio fel tîm.
- Ffordd o roi nôl i'r gymuned a gwella'r ddelwedd gyhoeddus.

- Hawdd a chost isel i'w weinyddu.
- Delir â phob taliad i elusennau gan asiantaeth.
- Ategu gwaith gwirfoddol gweithiwr neu gynllun mabwysiadu elusen drwy gynnig cyfleodd ychwanegol i weithwyr gyfrannu.
- Mae cyflogwyr sy'n cydweddu cyfraniadau o'r gyflogres yn medru dylanwadu ar ba achosion mae'r mudiad yn eu cefnogi.

### Sut mae ad-daliad treth yn gweithio

Mae rhoddion drwy'r gyflogres yn effeithiol o ran treth, ac felly'n golygu bydd y rhoddwr yn rhoi llai; mae cyfran o'r rhodd yn dreth, a ddylid ei dalu i'r Trysorlys.

e.e. bydd rhodd o £5.00 yn costio £3.90 yn wirioneddol.

Rhodd a dderbynnir gan yr elusen	Treth gyfradd sylfaenol (treth (22%))		Treth gyfradd uwch (treth 40%)	
	Ad-daliad treth	Cost i'r rhoddwr	Ad-daliad treth	Cost i'r rhoddwr
£5.00	£1.00	£4.00	£2.00	£3.00
£10.00	£2.00	£8.00	£4.00	£6.00
£20.00	£4.00	£16.00	£8.00	£12.00
£50.00	£10.00	£40.00	£20.00	£60.00

## Yr Asiantaeth rhoi o'r gyflogres (PGA)

Mae'r rhain yn Asiantaethau dielw a gofrestrwyd gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae yna saith ar draws y Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n dosbarthu rhoddion o'r gyflogres i'w helusennau enwebedig, gan ddefnyddio ffurflenni cofrestru gweithwyr fel cyfarwyddyd oddi wrth y cyflogwyr.

Mae'r Asiantaethau yn ymrwmo i gytundeb syml gyda gwahanol gyflogwyr i weinyddu'r system yma. Mae Asiantaethau eraill yn codi ffi fechan (3% - 6% o'r rhoddion) am y gwaith gweinyddol, er mae cynllun WCVA yn rhad ac am ddim ar hyn o bryd.

## Y cynllun rhoi o'r gyflogres

Gall unrhyw gyflogwr sydd â chyflogres cwmni a chyfeirnod PAYE gynnig y cynllun i'w weithwyr.

Mae'r pedwar cam isod yn dangos sut all cyflogwyr weithredu'r system:

### 1. Cofrestru

Gofyn am, cwblhau a dychwelyd y cytundeb syml i'r Asiantaeth.

### 2. Hyrwyddo

Cael ffurflenni o'r Asiantaeth i'r gweithwyr eu llofnodi, a'u dosbarthu'n fewnol gyda'r slip talu. Rhoi gwybod i'r gweithwyr drwy e-bost, erthyglau, sgysiau ac ati.  
Ffoniwch 0800 2888 329 i gael y pecyn gwybodaeth a deunyddiau eraill.

### 3. Didynnu o'r cyflog

Didynnir y rhoddion misol o'r cyflog gros cyn treth; bydd hwn yn sicrhau fod y rhodd yn effeithiol o ran treth.

Telir y didyniadau i gyd i'r Asiantaeth o fewn y mis canlynol, ynghyd â rhestr o'r gweithwyr a gyfrannodd.

### 4. Rhoi i'r elusen

Bydd yr Asiantaeth yn dosbarthu'r cronfeydd i'r elusennau a enwebwyd gan y gweithwyr.

## Pwy sy'n gymwys?

Gall unrhyw weithiwr sy'n derbyn cyflog drwy gyflogres gyda chynllun gweithredu o'r fath (gan gynnwys y rhai sy'n talu allan o'u pensiynau) gefnogi elusennau enwebedig yn y ffordd yma.

Mae rhwng pump a saith miliwn o bobl yn medru defnyddio cynllun o'r fath, gyda 578,000 yn cyfrannu.

## Sut mae gweithwyr yn cofrestru?

Yn syml, llenwir un ffurflen gofrestru a ddosberthir gan y cyflogwr, gan nodi faint y dylid ei ddiynnu bob mis.

Unwaith y cwblheir y ffurflen, dychwelir i'r Swyddog Cyflogres, neu os dymunir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, gellir ei anfon yn uniongyrchol i'r Asiantaeth.

Gellir defnyddio'r un ffurflen i ddechrau rhoi o'r gyflogres, dileu cyfarwyddiadau, neu wneud newidiadau i'r cyfarwyddyd.

## Taliadau

Bydd yr elusennau a enwebir gan y gweithwyr yn derbyn y cyfraniadau un mis ar ôl i'r cyfraniadau gael eu rhoi gan y gweithwyr. Bydd yr Asiantaeth yn rhoi'r cyfraniadau drwy BACS neu siec.

## Tair ffurf o roi drwy'r gyflogres

Efallai bydd gan y cyflogwyr gynlluniau yn barod; dylai codwyr arian fod yn ymwybodol fod yna dri math o gynllun:

1. Mae dewis gan y cyflogwyr i enwebu elusen, ond nid yw'r cynllun yn effeithiol o ran treth (heb gynnwys Asiantaeth).
2. Does dim dewis enwebu'r elusen ac nid yw'r cynllun yn effeithiol o ran treth (heb gynnwys Asiantaeth).
3. Mae dewis gan y cyflogwyr i enwebu elusen ac mae'r cynllun yn effeithiol o ran treth (gan gynnwys Asiantaeth).

## Marc Ansawdd rhoi o'r gyflogres

Mae'r Marc Ansawdd yn gynllun blynyddol sy'n cydnabod a gwobrwyo mudiadau am ddefnyddio'r cynllun rhoi o'r gyflogres, ac mae'n ysgogiad i fudiadau i gynnig y fath gynllun.

Mae'r cynllun yn darparu tystysgrif a Gwobrau Efydd, Arian ac Aur i'r cyflogwyr am gymryd rhan yn y cynllun.

## Gwybodaeth bellach

WCVA Giving Wales  
Tŷ Baltic,  
Sgwâr Mount Stuart,  
Caerdydd, CF10 5FH  
Ffôn: 0800 2888 329  
[givingwales@wcva.org.uk](mailto:givingwales@wcva.org.uk)  
[www.wcva.org.uk/givingwales](http://www.wcva.org.uk/givingwales)

Institute of Fundraising Cymru  
14 – 16 Merthyr Road,  
Eglwys Newydd,  
Caerdydd, CF14 1DG  
Ffôn: 02920 521 272  
Ffacs: 02920 521 250  
[cymru@institute-of-fundraising.org.uk](mailto:cymru@institute-of-fundraising.org.uk)  
[www.institute-of-fundraising.org.uk](http://www.institute-of-fundraising.org.uk)  
[www.payrollgivingcentre.org.uk](http://www.payrollgivingcentre.org.uk)

HM Revenue & Customs/ Charities  
Merton Road, Bootle  
Merseyside, L69 9BB  
Ffôn: 0845 302 0203  
[www.hmrc.gov.uk/charities](http://www.hmrc.gov.uk/charities)

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro**  
36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA  
Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk  
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli  
Wedi ei ddiweddarau: 01/07/2008



Ffôn: 0800 2888 329  
www.wcva.org.uk